OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 547

## Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) (Diwygio) 2017

**Dehongli**

**3.** Yn rheoliad 2(1) yn y man priodol, mewnosoder—

"ystyr "datganiad achos llawn" ("*full statement of case*") yw, ac mae'n cynnwys—

(a) datganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys manylion llawn yr achos—

(i) y mae'r ceisydd yn bwriadu ei gyflwyno mewn perthynas â'r cais sydd wedi ei gyfeirio at Weinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 20 o DCSP(**1**); neu

(ii) y mae'r apelydd yn bwriadu ei gyflwyno mewn perthynas â'r apêl o dan adran 21 o DCSP; a

(b) copïau o unrhyw ddogfennau ategol y mae'r ceisydd neu'r apelydd yn bwriadu cyfeirio atynt neu eu cyflwyno fel tystiolaeth;".

(**1**) Diwygiwyd adran 20 gan adran 162 o DDA a pharagraff 1 o Ran 7 o Atodlen 16 iddi, ac erthygl 3 o O.S. 2014/2773, a pharagraffau 24 a 25 o Atodlen 1 iddo.